

Chris Humphrey
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Dinas Casnewydd
Canolfan Ddinesig
Heol Godfrey
Casnewydd
NP20 4UR

Dyddiad: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd 2021: Cyngor Dinas Casnewydd

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein archwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 21 Mai a 25 Mai 2021. Diben y archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac rydym wedi cofnodi ein barn a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain, sef Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Llesiant, Partneriaethau ac Integreiddio.

Trosolwg

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd AGC ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol ym mis Medi er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae eu llesiant yn cael ei hyrwyddo yn ystod y pandemig. Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny. Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac rydym wedi cofnodi ein barn a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain, sef: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, Llesiant.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hyrwyddo eu llesiant, yn ystod y pandemig?
2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella

Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn: Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, gan gydbwysu hefyd yr argymhellion a'r gofynion a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Mae golwg clir gan yr arweinwyr ar arferion rheng flaen, gyda chynlluniau sy'n arwain at ddarparu gwasanaethau mewn modd arloesol ac esblygol mewn nifer o feysydd. Soniodd y staff wrthym am yr arweinwyr cefnogol iawn gan ddweud bod ganddynt barch mawr tuag atynt. Roedd diwylliant o wella a chefnogi ei gilydd a oedd yn cael ei ysgogi gan yr arweinwyr ym mhob rhan o'r sefydliad. Roedd yn glir mai'r penaethiaid gwasanaethau oedd yn arwain hyn. Mae gan y staff ymrwymiad a rennir i weithio gyda theuluoedd yn effeithiol yn unol â chyfyngiadau'r pandemig.

O ystyried amgylchiadau'r pandemig, er bod morâl y staff yn dda ar y cyfan, roedd llawer ohonynt wedi blino'n lân o ganlyniad i waith achos cymhleth a llwyth gwaith sylweddol. Roedd galw na welwyd ei debyg o'r blaen ar y gwasanaethau plant, a chynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau. Yn y gwasanaethau oedolion, gwelsom fod y gwasanaethau hynny hefyd yn gweithio o dan bwysau mawr. Dywedodd y staff wrthym fod eu llesiant wedi cael ei flaenoriaethu. Yn y gwasanaethau plant, gwelwyd cofnodion o sesiynau goruchwylio yn rheolaidd, a oedd yn cofnodi eglurder wrth wneud penderfyniadau. Gallai'r rhain fod wedi cael eu gwella drwy fod yn ddadansoddol ac yn fyfyrion. Nid oedd tystiolaeth o sesiynau goruchwylio ffurfiol i'w gweld yng nghofnodion y gwasanaethau oedolion, sy'n golygu bod cyfle wedi ei golli i ddangos meddwl a rhesymeg a rennir wrth wneud penderfyniadau. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael cyfle i barhau i ddysgu a datblygu am fod hyfforddiant ar-lein ar gael. Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn gefnogol o ran datblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys cefnogi ymarferwyr i ddod yn Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMHP) ac Aseswyr Budd Gorau (BIA).

Roedd rhestrau aros a oedd yn arwain at oedi wrth ymateb i anghenion gofal a chymorth rhai oedolion. Roedd system ar waith i reoli a blaenoriaethu gwaith, ond mae angen gwella amserlenni mewn perthynas â chefnogi llesiant y gweithle i reoli'r galw a sicrhau bod y bobl hynny'n cael eu hasesu o ran eu hanghenion gofal a chymorth, a'u bod yn cael y gofal a'r cymorth hwnnw. Lle roedd y bobl yn cael help, gwelsom dystiolaeth bod staff profiadol a hyfforddedig yn asesu anghenion, gan ganolbwyntio ar y cryfderau sy'n berthnasol i'r unigolyn dan sylw.

Gwelsom enghreifftiau o sut mae'r awdurdod lleol wedi addasu i ffyrdd newydd o weithio; er enghraifft, roedd y staff yn gweithio gydag elusen newydd i adnewyddu iPads a gliniaduron

a'u dosbarthu i bobl ifanc. Sefydldwyd gwasanaethau newydd ar gyfer byw â chymorth a gofal preswyl i bobl sy'n pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Yn y gwasanaethau oedolion, clywsom am wirfoddolwyr a chysylltwyr cymunedol yn cael eu rhoi ar waith i ymateb i'r pandemig o dan amgylchiadau heriol.

Roedd agweddau Technoleg Gwybodaeth ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yr awdurdod lleol yn rhwystr mawr i gynhyrchiant y staff, ac yn peri rhwystredigaeth ymhlith y gweithlu am ei bod yn anodd i ddefnyddwyr y system gael gafael ar wybodaeth a chofnodi gwybodaeth. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru wedi nodi hyn fel risg oherwydd yr effaith sylweddol a gaiff ar y gwaith o ddarparu gofal a chymorth.

Roedd enghreifftiau o ymarferwyr yn meithrin cydberthnasau ymddiriedus â'r bobl; cawsom adborth cadarnhaol gan ofalwyr a rhieni i gadarnhau hyn. Bu'r ymarferwyr yn gadarn yn eu hymdrechion i ymgysylltu â'r bobl ac i feithrin cydberthnasau ar sail cysondeb, sefydlogrwydd a chyfathrebu parchus.

Yn y gwasanaethau oedolion, roedd asesiadau cymesur yn cael eu cynnal yn amserol, ac roedd y bobl wedyn yn cael eu rhoi ar restr aros, a oedd yn cael ei hadolygu gan y rheolwyr. Er eu bod yn amrywiol, roedd barn yr unigolyn (gan gynnwys y gofalwyr) wrth wraidd yr asesiadau; ar y cyfan, roedd lleisiau'r bobl yn cael eu clywed, roedd eu dewisiadau'n cael eu parchu, ac roedd y bobl yn cyflawni canlyniadau a nodwyd ganddynt. Gwelwyd amrywiaeth o ran yr amgylchiadau personol a gynrychiolwyd; roedd yr enghreifftiau gorau yn cynnwys dadansoddiad manwl o gryfderau, risgiau, rhwystrau a chanlyniadau'r unigolyn. Yn y gwasanaethau plant, nid oedd llais y plentyn yn cael blaenoriaeth bob amser mewn cofnodion, a nodwyd eu bod yn canolbwyntio ar oedolion. Roedd y gwaith dadansoddi a chrynhai a wnaed gan ymarferwyr yn y ffeiliau a welsom yn glir a phenodol ar y cyfan. Roedd cymysgedd da o wybodaeth, a oedd yn gymesur â'r amgylchiadau.

Gwelsom fod yr angen i gefnogi gofalwyr yn ystod y pandemig yn cael ei gydnabod. Roedd y gofalwyr yn cael gwybodaeth a chynghor, yn ogystal â gwasanaethau i gefnogi eu hanghenion. Mae adnoddau'r gofalwyr wedi cael eu diweddarau; er enghraifft, mae adnoddau digidol wedi cael eu hadnewyddu, ac roedd gwaith ymgysylltu yn mynd rhagddo gyda'r rhwydwaith i ofalwyr. Yn y gwasanaethau plant, cawsom ymateb cadarnhaol gan y rhieni a'r gofalwyr am y cymorth roeddent yn ei gael.

Yn y gwasanaethau oedolion, roedd llais y bobl a'r gallu i reoli'r gwasanaethau roeddent yn eu cael wedi'u hategu gan wasanaethau eirioli fel sy'n briodol, ac wedi'u cadarnhau drwy adborth gan ddarparwyr. Mae hyn yn arwyddocaol am ei fod yn cefnogi pwyslais penodol ar yr hyn sy'n bwysig i'r bobl, y canlyniadau y maent am eu cyflawni, a'r ffordd y gallant ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau eu hunain i hybu eu llesiant eu hunain. Gwelsom fod taliadau uniongyrchol yn helpu'r bobl (gan gynnwys gofalwyr) i gael hyblygrwydd o ran y cymorth a'r gofal roeddent yn eu cael. Roedd un enghraifft yn cynnwys defnyddio taliadau uniongyrchol mewn modd creadigol i roi cymorth drwy gynorthwyydd personol a gwasanaeth yn ystod y nos. Gwelsom enghreifftiau o asesiadau o fudd gorau a galluedd meddyliol a oedd yn dangos bod penderfyniadau clir yn cael eu gwneud; gwelsom hefyd fod asesiadau o alluedd yn cael eu hadolygu dros amser er mwyn ystyried galluedd amrywiol ac amgylchiadau newidiol. Gellid gwella ymarfer ym maes gwasanaethau oedolion drwy gofnodi penderfyniadau'n fwy penodol, gan gynnwys y rhesymeg y tu ôl iddynt.

Mae demograffeg Casnewydd yn creu heriau a chyfleoedd unigryw, nad ydynt i'w gweld mewn awdurdodau lleol cyfagos, sy'n golygu gweithio gyda nifer mawr o deuluoedd o gefndiroedd trawmatig a chymhleth. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda chymunedau amrywiol iawn, a gwelsom fod gwasanaethau yn cael eu cynnig yn newis iaith y bobl. Gwelsom fod y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo, a bod iaith gyntaf y bobl yn cael ei chofnodi mewn blwch gorfodol ar y system TG. Mae sicrhau bod gan y gweithlu y wybodaeth a'r sgiliau i weithio gydag amrywiaeth a chymhlethdod yn heriol, ond mae'r gwasanaethau wedi datblygu arbenigedd i ymgysylltu â gwahanol gymunedau, ac mae cynlluniau ar droed i wella'r gwasanaethau cymorth hyn. Roedd rôl cysylltwyr cymunedol lleiafrifoedd ethnig a chyfranogiad mewn grwpiau cydlyniant cymunedol yn enghreifftiau o'r ffordd roedd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Yr her yw ceisio sicrhau bod yr amrywiaeth o ofalwyr maeth sydd ar gael yn cyfateb i'r amrywiaeth yn y gymuned. Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn gweithio ar hyn, er enghraifft, drwy weithio gyda'r arweinydd cydraddoldebau a chysylltu â mosgiau yn y gymuned. Mae gwaith cynhyrchiol wedi ei wneud gyda Chyngor Dinas Caerdydd fel awdurdodau lleol arweiniol yng Nghymru ar gyfer y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol (NTS) a'r gwaith o drosglwyddo plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches o un awdurdod i'r llall yn ddiogel.

Atal – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Roedd dull integredig cadarnhaol o ymdrin â diwylliant atal drwy gydweithio, a seilweithiau cefnogol ym mhob rhan o wasanaethau gofal cymdeithasol ac asiantaethau partner. Fodd bynnag, o ganlyniad i restrau aros a'r galw ym mhob rhan o'r gwasanaethau oedolion, mae gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd adweithiol mewn rhai meysydd, ac ni chaiff anghenion eu hasesu'n amserol bob amser. Mae hyn yn golygu y gall problemau ailgodi a gwaethygu wrth i'r bobl aros am wasanaeth. Felly mae'r agwedd ar y gwasanaethau a ddarperir sy'n ymwneud ag atal wedi cael llai o effaith yn ystod y pandemig. Mae darparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir wedi bod yn heriol. Gwelsom bwysau ar y staff, ac roedd rhai o'r timau'n awyddus i symud atgyfeiriadau ar draws gwasanaethau er mwyn ymdopi â'r galw. Fodd bynnag, gwelsom ymarferwyr yn blaenoriaethu eu hymatebion yn briodol yn ôl yr angen, ac roeddent yn gallu cefnogi'r bobl yn ddiogel. Gwelsom rai gwasanaethau ataliol yn parhau i weithio yn ystod y pandemig; yn ogystal â chysylltwyr cymunedol a gwasanaethau megis Mannau Tyfu sydd wedi parhau, er yn rhithwir.

Yn y gwasanaethau plant, gwelsom fodel ymyrryd yn gynnar sy'n sicrhau bod modd i blant fanteisio ar amrywiaeth o wasanaethau a gefnogir gan Panel Llesiant Gofod a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau statudol a thrydydd sector. Mae'r ganolfan ddiogelu wedi gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf wrth ymateb i deuluoedd mewn argyfwng. Ystyriwyd bod y gwasanaeth Ymateb Cyflym cymharol newydd yn wasanaeth cadarnhaol, a nododd y staff fod gwasanaethau eraill megis Cynadleddau Grŵp Teulu a Fy Nhîm Cefnogi (Mhyst) yn ymateb er mwyn sicrhau nad oedd anghenion yn gwaethygu. Gwelsom ddull cadarnhaol o ddatblygu gwasanaethau creadigol, megis Babi a Fi, a chydbertnasau cynhyrchiol â sefydliadau megis Teuluoedd yn Gyntaf, Barnardos a chyfiawnder ieuenctid.

Mae'r awdurdod lleol yn cael problemau wrth sicrhau digon o leoliadau, gan gynnwys lleoliadau i blant ag anableddau, ac mae hyn yn waeth o ganlyniad i'r galw sylweddol am leoliadau i blant o gefndiroedd cymhleth a thrawmatig. Gwnaed gwaith ar lefel leol ac ar y

cyd â phartneriaid rhanbarthol er mwyn gwella'r sefyllfa hon, ac mae rhai lleoliadau newydd ar gael sydd â phwyslais penodol ar ddiwallu anghenion cymhleth. Cafodd mwy o ofalwyr maeth eu recriwtio yn 2020 o ganlyniad i arferion recriwtio cadarnhaol, am fod asesiadau wedi parhau i fynd rhagddynt yn rhithwir.

Partneriaethau ac Integreiddio – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun yr achubir ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn gwneud y mwyaf o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig mewn modd cynaliadwy?

Roedd partneriaethau'n gweithio'n dda ar bob lefel ar y cyfan ac yn darparu dull cynaliadwy integredig o ddiwallu anghenion a hybu llesiant, yn unol â deddfwriaeth a disgwyliadau i gyflawni canlyniadau cynaliadwy i'r bobl. Er bod hyn i'w gweld yn amlach ar lefel unigol, gwelsom fod y cymorth yn seiliedig ar gydberthynas o fod yn agored ac yn onest am yr opsiynau sydd ar gael i bobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth.

Ar lefel weithredol, clywsom am gyfathrebu da rhwng gwasanaethau'r awdurdod lleol a phartneriaid allanol. Disgrifiodd yr adborth a gawsom gan sefydliadau partner gydberthnasau gweithio sy'n gadarnhaol ac yn gydweithredol ar y ddwy ochr. Fodd bynnag, roedd rhai darparwyr bach yn poeni am eu cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy. Gwelsom enghreifftiau o weithio'n agos gyda phartneriaid; er enghraifft, ymweliadau a gynhaliwyd ar y cyd rhwng ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol a staff y gwasanaeth cof, a gwaith a wnaed ar y cyd â thîm iechyd meddwl mewn sefyllfa'n ymwneud â diogelu. Yn y gwasanaethau plant, gwelsom fod y staff yn gweithio'n agos gyda'r ymwelwyr iechyd. Roedd prosesau cyfnewid gwybodaeth rhwng asiantaethau mewn perthynas â chynllunio gofal a chymorth yn effeithiol. Drwy hyn, cafwyd y cyfle gorau i roi gofal o ansawdd da, gan sicrhau llesiant ac atal anghenion y bobl am ofal a chymorth rhag gwaethygu.

Gwelsom y gellid gwella ymatebion rhwng asiantaethau drwy sicrhau dealltwriaeth well o drothwyon yn y gwahanol ddisgyblaethau. Roedd yr ymatebion a gafwyd gan ymarferwyr a rheolwyr ym mhob rhan o'r gyfarwyddiaeth yn dangos bod partneriaid yn amrywio mewn perthynas â dealltwriaeth a rennir o'r nodau a'r canlyniadau bwriadedig wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Cafwyd yr enghreifftiau gweithredol gorau mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth yn dda a chyfraniadau rhwng asiantaethau o ran prosesau diogelu.

Yn y gwasanaethau plant, roedd y gweithwyr cymdeithasol yn cael cymorth da gan staff addysg yr awdurdod lleol, ac roedd cysylltiadau cryf rhwng ymarferwyr plant ag anabledau ac ysgolion. Gwelsom y gellid gwella'r broses o gwblhau Cynlluniau Addysg Personol (PEP); roedd y broses gydgysylltu rhwng yr ysgolion a'r gweithwyr cymdeithasol yn fecanistig, ac roedd angen canolbwyntio ar yr unigolyn yn fwy. Byddai cymorth gwell gan staff ysgolion, sy'n deall anghenion addysgol plant unigol, yn gwella'r broses. Ar hyn o bryd, nid yw'r broses Cynlluniau Addysg Personol i gefnogi cyrhaeddiad addysgol y plant a'u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol yn cael y flaenoriaeth sydd ei hangen.

Yn y gwasanaethau plant, mae'r cydberthnasau â'r farnwriaeth wedi parhau i fod yn heriol, i'r graddau bod rhai ymarferwyr yn credu bod hyn yn un o'r rhesymau pam fod staff yn gadael yr awdurdod lleol. Mae hyn yn siomedig o ystyried ymdrechion a wnaed gan yr awdurdod lleol i feithrin cydberthynas waith gadarnhaol. Mae'r mater hwn wedi bod yn broblem yn yr awdurdod lleol hwn, ac mewn awdurdodau lleol cyfagos, ers cryn amser, ac mae wedi cael effaith sylweddol ar forâl y gweithlu.

Llesiant – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Mae'r awdurdod lleol wedi arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn gwneud ymdrechion i sicrhau ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Ar lefel unigolyn, mae hyn wedi cynnwys gofyn beth yw dymuniadau a theimladau'r unigolyn, bod yn barchus tuag ato, ac adeiladu ar ei amgylchiadau a'i alluoedd. Roedd gweithio mewn partneriaeth â'r bobl i ddatblygu atebion creadigol yn amlwg, gan wella ansawdd gofal, sicrhau llesiant a datblygu anghenion y bobl am ofal a chymorth.

Gwelsom fod sgysiau 'Yr hyn sy'n bwysig' yn cael eu cynnal, gan gofnodi barn gyda phwyslais ar amgylchiadau personol, cryfderau, risgiau, rhwystrau a'r hyn sy'n gorfod digwydd i gyflawni canlyniadau personol. Roedd negeseuon atgoffa System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn ddefnyddiol am eu bod yn galluogi'r ymarferwyr i fynegi'r hyn roeddent yn poeni amdano yn glir, yn ogystal â'r hyn oedd yn gweithio'n dda i unigolion. Yn y gwasanaethau oedolion, gwelsom fod llawer o'r asesiadau yn cael eu cynnal dros y ffôn, a bod y gofalwyr yn ateb ar ran yr unigolyn ar adegau. Roedd hyn yn golygu bod yr hyn yr oedd yr unigolyn a oedd yn gofyn am gael ei gefnogi a'i amddiffyn yn ei gynnis i'r broses yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi ar y cyfan.

Yn y gwasanaethau oedolion, roedd ymholiadau ac ymchwiliadau diogelu yn cael eu cynnal yn unol â gofynion statudol ar y cyfan. Roedd cyfarfodydd a thrafodaethau strategaeth yn effeithiol ac yn cynnwys y bobl gywir a'r asiantaethau cywir. Fodd bynnag, i rai pobl, roedd y dadansoddiadau o risgiau a'r camau i fynd i'r afael â diogelwch yn amrywio, ac nid oeddent yn amserol bob amser. Yn yr enghreifftiau gorau, cafodd gwybodaeth ei chasglu yn brydlon drwy wiriadau ochrol rhwng asiantaethau a rhoddwyd camau gweithredu ar waith yn brydlon i fynd i'r afael â risgiau lle y cytunwyd ar hynny. Bu oedi wrth gynnal rhai trafodaethau strategaeth rhwng y gwasanaethau oedolion a'r gwasanaethau plant, ac oedi wrth gynnal rhai ymweliadau wrth weithio gyda heddlu Gwent. Yn y gwasanaethau oedolion, dywedodd y darparwyr fod yr awdurdod lleol yn ymatebol i'r ddybetswydd diogelu oedolion i roi gwybod am amgylchiadau, a'i fod yn cyfathrebu â nhw'n effeithiol. Byddai modd gwella hyn yn well pe bai canlyniadau ymholiadau yn cael eu rhannu â darparwyr yn rheolaidd fel y bo'n briodol, at ddiben deall materion diogelwch, ac er mwyn dysgu o brofiad.

Mae dull newydd o ymateb i blant sy'n mynd ar goll yn cael ei gwblhau ar y cyd â Heddlu Gwent a Llamau; bydd angen sicrhau eglurder ar gyfer y gweithlu fel mater o frys am fod rhai pobl yn camddeall y mater ar hyn o bryd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod risgiau a diogelwch pobl ifanc yn cael eu hystyried yn llawn.

Gwelsom fod amgylchiadau'r bobl yn cael eu hadolygu ym mhob rhan o'r gyfarwyddiaeth, a gwelsom gyfraniadau cadarnhaol ar draws asiantaethau. Yn y gwasanaethau oedolion, roedd adolygiadau blynyddol yn cael eu trefnu, a gwelsom fod gofal a chymorth yn cael eu haddasu i ddiwallu anghenion newidiol y bobl. Roedd y cydberthnasau â'r bobl a'r cyfathrebu â nhw yn gydweithredol. Ar y cyfan, cynhelir sgysiau sy'n seiliedig ar gryfderau bellach yn lle'r asesiadau traddodiadol sy'n seiliedig ar anghenion, er bod rhywfaint o'r gofal a'r cymorth yn cael eu harwain gan wasanaethau.

Gwelsom fod plant sy'n derbyn gofal yn cael cymorth effeithiol gan y grŵp amlasiantaeth a gwelsom safon dda o adolygiadau a arweinir gan swyddogion adolygu annibynnol (IRO) a oedd yn gallu gweithio gydag ymarferwyr yn effeithiol. Cawsom adborth cadarnhaol gan bobl sy'n gadael gofal a oedd yn canmol eu cynghorwyr personol (PA) yn fawr, a gwnaethant ddweud ei bod yn bwysig bod pobl yn gwrando arnynt a bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Dull:

- gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd cyn ein hymweliad
- gwnaethom siarad ag 11 o ofalwyr a phobl a oedd yn derbyn, neu a oedd wedi derbyn, gofal a chymorth, gan gynnwys dau unigolyn sy'n gadael gofal
- gwnaethom fwrw golwg dros 30 o ffeiliau
- gwnaethom gynnal 10 o gyfweiliadau olrhain achosion gydag ymarferwyr a rheolwyr
- gwnaethom gynnal cyfweiliadau â phum gweithiwr proffesiynol arweiniol partner a diogelu
- gwnaethom arsylwi ar gyfarfod wythnosol o'r tîm rheoli digwyddiadau
- gwnaethom gynnal wyth grŵp ffocws
- gwnaethom gynnal wyth arolwg

Y Camau Nesaf

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella fel blaenoriaeth, a byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad â'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu i gynnal y archwiliad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru